**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cronfa Bensiwn

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M B Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P N Bentu | P Downing | W G Thomas |

**Aelod Cyfetholedig o Gyngor Castell-nedd Port Talbot**
Philip Rogers

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Philip Pearson | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |
| Andre Ranchin | Ymgynghorydd - Hymans Robertson |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Cynghorwyr: J P Curtice and M W Locke

---

## 26 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datgelwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr P N Bentu, P Downing, M B Lewis, P Rogers ac W G Thomas gysylltiadau personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Datganodd Ian Guy gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

Swyddogion:

Datganodd K Cobb, J Dong, J Parkhouse ac S Williams gysylltiad personol â'r agenda yn ei chyfanrwydd.

## 27 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 6 Medi 2023 fel cofnod cywir.

## 28 Cynllun Archwilio Manwl - Cyngor a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Gillian Gillett, Archwilio Cymru, Gynllun Archwilio Archwilio Cymru 2023 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith yr oedd Archwilio Cymru'n bwriadu ei wneud yn ystod 2023 i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel archwiliwr allanol, a chyflawni ei rwymedigaethau dan y Côd Ymddygiad i archwilio ac ardystio a yw datganiadau cyfrifyddu'r Gronfa Bensiwn yn 'wir ac yn deg'.

Amlinellwyd mai diben y cynllun oedd nodi'r gwaith arfaethedig, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint y byddai'n ei gostio a phwy fyddai'n gwneud y gwaith. Ychwanegwyd nad oedd unrhyw gyfyngiadau wedi'u gosod ar yr archwilwyr wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad.

Roedd y cynllun hefyd yn amlinellu defnyddioldeb y datganiadau ariannol, archwiliad o gyfrifon y cronfeydd pensiwn, y risgiau sylweddol o ran datganiadau ariannol, meysydd ffocws eraill, swyddogaethau archwilio statudol, y ffi archwilio, y tîm archwilio, yr amserlen ac ansawdd yr archwilio.

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r newidiadau allweddol i Arfarniad Cynaladwyedd Integredig (ACI) 315 a'r effaith bosib ar y cyngor.

## 29 Adroddiad SRA 260 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Gillian Gillet, Swyddfa Archwilio Cymru, Adroddiad Archwilio Cyfrifon ACI 260 – Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe a oedd yn crynhoi prif ganfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon ar gyfer 260-2022.

Ychwanegwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y bydd y cyngor wedi darparu'r Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar Atodiad 1. Darparwyd yr Adroddiad Archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfrifon a oedd yn aros heb eu cywiro. Esboniwyd bod manylion y camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr yn fân ddiwygiadau o natur gyflwyniadol ac nad oeddent yn cael unrhyw effaith ar wariant net nac asedau net y Gronfa Bensiwn. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill yn codi.

Ychwanegwyd yn ystod archwiliad 2021-22, fod Archwilio Cymru wedi nodi un mater arall a arweiniodd at nodi argymhelliad yn adroddiad Archwilio Cyfrifon 2021-22. Roedd Archwilio Cymru wedi mynd ar drywydd gweithredu'r argymhelliad hwn gan ddweud ei fod wedi'i weithredu fel y nodwyd yn Atodiad 3. Ni nodwyd unrhyw argymhellion pellach ganddynt ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn ystod archwiliad 2022-23.

Diolchodd y Cadeirydd i Archwilio Cymru am yr adroddiad a chanmolodd Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151, Karen Cobb, Rheolwr Cyfrifeg a Buddsoddiad a staff yr Adran Gyllid am eu holl waith.

## 30 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon 2022/23.

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 2022/23.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Ddinas a Sir Abertawe bob amser wedi cynhyrchu datganiad cyfrifon ac adroddiad blynyddol ar wahân mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol dan sylw, a oedd yn destun archwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn ymgynghoriad â Swyddfa Archwilio Cymru, penderfynwyd cyfuno'r ddwy ddogfen yn un a gwneud y cynhyrchiad/proses archwilio'n fwy syml.

Ychwanegwyd bod swyddogion wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon drafft 2022/23 yn ystod cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Gorffennaf 2023 ac roedd Atodiad 1 yn darparu'r fersiwn derfynol, a oedd yn destun yr adroddiad ACI 260 gyda barn archwilio a chanfyddiadau archwilio wedi'u cyflwyno gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar berfformiad buddsoddi rhagorol a oedd ar frig tabl y gynghrair dros 3 blynedd a'r gwelliant parhaus dros y tymor hwy a diolchwyd i staff yr Adran Gyllid, a’u llongyfarch,
am eu gwaith a'u hymrwymiad.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2022/23.

## 31 Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2022/2023.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) 2022/23.

Darparwyd Adroddiad Blynyddol PPC 2022/23 yn Atodiad 1.

## 32 Adroddiad am doriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi 2023.  Nodwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

**33 Gwahardd y Cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**34 Y Diweddaraf am roi'r Strategaeth Buddsoddi ar waith.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog A151 adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd parhad y rhaglen ailddyrannu asedau (dadrisgio) o ecwitïau i asedau ildio a oedd yn cyfrannu at amcanion sero net.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynnydd a'r gweithrediadau a wnaed hyd yma ar argymhellion a gymeradwywyd yn flaenorol yn adran 2.2.6 yr adroddiad.

**35 Adroddiad(au) diweddaru.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor y Gronfa Bensiwn am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Roedd Atodiad 1 yn darparu'r adroddiad diweddaru a chynnydd chwarterol a ddarparwyd gan awdurdod cynnal Partneriaeth Pensiwn Cymru, Cyngor Sir Gâr ac Adolygiad Cynllun Busnes PPC ar gyfer Ch1 2023-24.

**36 Adroddiad Monitro Buddsoddiadau Chwarterol.**

Cyflwynodd Philip Pearson ac Andre Ranchin, Hymans Robertson, y diweddariad ar y farchnad a'r buddsoddi chwarterol i'r gronfa 'er gwybodaeth'.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad ac atebwyd yn briodol iddynt.

**37 Adolygiad o'r Strategaeth Buddsoddi.**

Cyflwynodd Philip Pearson ac Andre Ranchin, Hymans Robertson Adolygiad o Strategaeth Buddsoddi 2023 Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 'er gwybodaeth'.

**38 Cynllun y daith at Sero Net.**

Cyflwynodd Philip Pearson ac Andre Ranchin, Hymans Robertson, Gynllun Trawsnewid Sero Net Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe 'er gwybodaeth'.

**39 Crynodeb Buddsoddi.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cynnwys y gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 30 Medi 2023.

**40 Cyflwyniad Rheolwr y Gronfa:**

Gwnaed cyflwyniad gan Julian Brown, Majid Khan a Taran Paik o Russell Investments.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am gynnwys y cyflwyniad ac atebwyd yn briodol iddynt.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniad a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.30 pm

**Cadeirydd**